

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470
(CYLCHFAN CORYTON, CAERDYDD I
GYLCHFAN ABERCYNON, RHONDDA CYNON
TAF) (DILEU CYFYNGIADAU A THERFYN
CYFLYMDER 40 MYA) 202-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn dileu anghysondeb sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda'r terfyn cyflymder presennol yn y lleoliad hwn.

Yn dilyn y newid yn y terfyn cyflymder diodyn cenedlaethol o 30 mya i 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru ym mis Medi 2023, mae rhannau o briffordd sy'n ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder cenedlaethol uwch lle y mae goleuadau stryd yn bresennol ond lle nad oes Gorchymyn dileu cyfyngiadau ar waith wedi eu nodi.

Y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol (ar gyfer ceir a beiciau modur) ar ffyrdd deulol yw 70 mya. Mae'r ffaith bod goleuadau stryd yno, a ddarperir gan lampiau sydd wedi eu gosod heb fod yn fwy na 200 llath (183 o fetrau) oddi wrth ei gilydd yn golygu bod y rhan hon o'r ffordd wedi ei dosbarthu'n ffordd gyfyngedig.

Yn dilyn adolygiad o'r rhan hon o'r ffordd yn erbyn y ffactorau a nodir yn adran 6.4 a 6.8 o'r canllawiau ar Bennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad, er gwaethaf presenoldeb goleuadau stryd, y dylai'r ffordd yma fod â therfyn cyflymder sy'n cyd-fynd â'r terfyn cyflymder cenedlaethol ar gyfer ffyrdd deulol (70 mya), gan nad yw'r ffactorau ar gyfer terfyn cyflymder is o 20 mya wedi eu bodloni.

Felly, mae'r Gorchymyn hwn yn sicrhau bod y terfyn cyflymder ar y rhan hon o gefnffordd yr A470 yn cael ei gadw at 70 mya.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig hefyd yn gosod terfyn cyflymder 40 mya ar ddarn o un o slipffyrdd y gefnffordd sy'n angenrheidiol er mwyn unioni rhyngwyneb rhwng rhwydwaith yr awdurdod lleol a'r rhwydwaith cefnffyrdd.

**THE A470 TRUNK ROAD (CORYTON
ROUNDAABOUT, CARDIFF TO ABERCYNON
ROUNDAABOUT, RHONDDA CYNON TAF)
(DERESTRICTION AND 40 MPH SPEED
LIMIT) ORDER 202-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is necessary to remove an anomaly that currently exists with the current speed limit at this location.

Following the change in national default speed limit from 30 mph to 20 mph on restricted roads across Wales in September 2023, sections of highway subject to the upper national speed limit where street lighting is present but no derestriction Order is in place have been identified.

The current national speed limit (for cars and motorcycles) on dual carriageways is 70 mph. The presence of street lighting furnished by lamps placed not more than 200 yards (183 metres) apart means this section of road is classed as a restricted road.

Following a review of this section of road against the factors set out in section 6.4 and 6.8 of the guidance on Setting Local Speed Limits in Wales 2009, the Welsh Government has concluded that, despite the presence of street lighting, the road here should have a speed limit aligned to the national speed limit for dual carriageways (70 mph), as the factors for a lower speed limit of 20 mph have not been met.

This Order therefore ensures that the speed limit on this section of the A470 trunk road is retained at 70 mph.

The proposed Order will also impose a 40 mph speed limit on a length of one of the trunk road slip roads, which is necessary to tidy up an interface between the local authority network and trunk road network.